

TALIESIN, bardd a ganai yn ail hanner y 6ed ganrif

Enw: Taliesin
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth
Awdur: Ifor Williams

adeig y brwydro yn erbyn Ida, brenin Northumbria, a'i feibion, medd nodyn yn *Historia Brittonum* [Nennius](#). Cyfoesai â 'Neirin,' sef [Aneirin](#), bardd y Gododdin. Prif arweinydd y Brython yn y rhyfel hwn oedd 'Urbgen,' sef Urien Rheged ap Cynfarch (gweler *Cymm.*, ix, 173); enwir tri brenin arall, [Rhydderch Hen](#), Gwallawg, a Morgant, a ymladdodd gydag ef yn erbyn Hussa mab Ida, a dywedir ymhellach i Urien a'i feibion ymladd yn erbyn Deodric, mab Ida. Rhydd [Lloyd](#), *A History of Wales* [↗](#), 163, deyrnasiad Theoderic yn 572-9, a Hussa yn 585-92. Yn 'Llyfr Taliesin,' llawysgrif o tua 1275, cadwyd hengerdd a dybid ei bod yn waith Taliesin. Yno ceir canu i Urien a'i fab Owain a mawl i Wallawg ab Lleenawg; hefyd i Gynan Garwyn ap Brochfael, tad y Selyf a laddwyd ym mrwydr Caer (613 neu 615). Rhyw ddwsin sydd o'r caneuon hynafol hyn, ond cynhwysir yn y llawysgrif lawer o ganu nad oes dichon ei amseru cyn y 9fed ganrif a'r 10fed. A gadael i hwnnw fynd, mae dadl gref yn bosibl dros y dwsin. Os erys dim o gerdd ddilys Taliesin, fe'i ceir yno.

Rhoes y [Dr. Gwenogvryn Evans](#) inni argraffiad gwych o'r llawysgrif *The Book of Taliesin*, 1910; hwn yw'r testun safonol bellach. Cyfeiliornodd ysywaeth yn ddybryd yn ei ragymadrodd a'i nodiadau; ond da cael testun sicr o bob llinell, gan fod cyfoeth o ddefnydd gwerthfawr yma i'r neb a astudio ddechreuadau cerdd dafod Gymreig neu ddatblygiad y Gymraeg ei hun yn y cyfnod cynnar. I'r graddau y ceir dehongliad sicrach o'r iaith, daw golau newydd hefyd ar hanes yr Oesoedd Tywyll.

Mae un peth bellach yn amlwg. Priodolwyd ar gam i Daliesin, y Cynfardd o ddiwedd y 6ed ganrif, liaws o ganeuon a ffurfiai ran o gyfarwyddyd neu chwedl a luniwyd mewn oes ddiweddarach, efallai yn y 9fed ganrif. Prif gymeriad y chwedl ddramatig honno yw Gwion Bach a lyncodd y tri dafn rhinweddol a neidiodd yng nghyflawnder yr amser o bair Cyridwen Wrach. Llyncwyd yntau gan y wrach ddigofus, ac ail aned fel baban iesin ei dalcen a wyddai bopeth am a fu, a oedd, ac a fyddai. Hwn yw'r Taliesin a ganodd i Elffin ab Gwyddno, a'i gampau ef a groniclir mewn rhyddiaith a chân yn y chwedl a elwir 'Hanes Taliesin' ([Guest](#), *The Mabinogion*, iii). Ni pherthyn ddim oll i'r Taliesin hanesyddol ond aeth yn llawer mwy poblogaidd nag ef, fel y gwelir yng nghyfeiriadau'r Gogynfeirdd. Hawdd yw dosbarthu cynnwys 'Llyfr Taliesin' rhwng y ddau (oddieithr y canu crefyddol). Lleolir y Gwion - Daliesin yn ardal Llyn Tegid, llys [Maelgwn](#) yn Negannwy, a llys Elffin ple bynnag yr oedd. Am y Cynfardd, Taliesin, nid oes sicrwydd. Yn ôl ei eiriau ef ei hun nid oedd yn perthyn i ddeiliaid Urien, ond teithiodd at deyrnedd y gogledd ac aros i'w clodfori. Gellid felly roi ei gartref yng Nghymru, a chan y priodolwyd iddo foliant Cynan ab Brochfael brenin Powys, yr hen Bowys helaeth, mae esgus o reswm dros ei wneuthur yn r o Bowys - y rhan nesaf o Gymru at Ystrad Glud, a'r man hwylusaf i gychwyn am Elfed ('Elmet,' ger Leeds) a Gwallawg : Rheged ac Urien. Gelwir hen fedd o'r cynoesoedd yng ngogledd Aberteifi yn Fedd Taliesin. Odid nad Taliesin y chwedl yw hwn, nid Taliesin hanes.

Awdur

Syr Ifor Williams, (1881 - 1965)

Ffynonellau

Sharon Turner, *A vindication of the genuineness of the ancient British poems of Aneurin, Taliesin, Llywarch Hen, and Merdhin with specimens of the poems* (Llundain 1803), 1803

D. W. Nash, *Taliesin, or, The bards and druids of Britain a translation of the remains of the earliest Welsh bards and an examination of the bardic mysteries* (Llundain 1858)1858

Y Beiriniad, 1916, 203-14

J. Morris-Jones, *Y Cymmrodor*, xxviii, 1918

Ifor Williams, *Lectures on Early Welsh Poetry* (Dulyn 1944) (Dublin, 1944)

Ni ellir cymeradwyo'r cyfieithiad a roir gan W. F. Skene, *The four ancient books of Wales containing the Cymric poems attributed to the bards of the sixth century* (Caeredin 1868)

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Taliesin](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [281217740](#)

Wikidata: [Q357835](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

